

Yn dilyn cwestiynau ynglŷn ag Astudiaeth Ddichonoldeb o'r Dewisiadau Peirianyddol er mwyn Rheoli Dyfrffos Ardudwy, mae matrices sgorio a meini prawf wedi ei osod ar wefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) ar eglurhad dilynol wedi ei ddarparu.

Nid oes Swyddogion Pwrcasu o fewn yr APCE gan ein bod yn Awdurdod bach felly bydd tendrau fel hyn fel arfer yn cael eu prosesu gan Swyddogion Prosiect ar sail achos gan ddefnyddio rheolau pwrcasu'r Awdurdod sydd ar gael fel dogfen gyhoeddus ar wefan yr Awdurdod trwy'r ddolen ddilynol: http://www.snowdonia.gov.wales/_data/assets/pdf_file/0014/524003/Contract-SO-Master-05-06-13-3.pdf

Ni does angen darparu dogfennau penodol, er hyn mae'n ddoeth i chi gynnwys dogfennau fel y gwelwch yn dda a fydd yn cefnogi eich cyflwyniad. Ni does terfyn tudalennau ar gyfer cyflwyniad tendr.

Dylai tendrwr ddarparu eu telerau ac amodau safonol fel rhan o'r cyflwyniad. O ran taliadau, mae'n bosib y bydd 30% yn cael ei dalu ymlaen llaw os gofynnir, gyda 30% arall i ddilyn ar ôl cyflwyniad y drafft cyntaf a'r 40% olaf ar ôl cyflwyno'r adroddiad terfynol.

Bydd newid yn ystod y prosiect yn cael ei rheoli trwy gyflwyno gwelliannau posibl. Bydd APCE ac Adnoddau Cenedlaethol Cymru (ACC) yn ymchwilio i'r rhain. Os gellir cyfiawnhau'r newid arfaethedig bydd yn cael ei awdurdodi a gwneir diwygiad i'r cytundeb gwaith gwreiddiol.

Nid oes dyddiad cau ar gyfer mynegiant o ddiddordeb, penodir pob terfyn amser yn adran Amserlen y ddogfen fanyleb.

Fel y Swyddog Prosiect i'r prosiect sydd yn cefnogi'r astudiaeth hon, fi fydd prif gyswllt ar gyfer eglurhad cyn cyflwyno. Er mai'r APCE yw'r Awdurdod yn cyhoeddi'r prosiect, mae'n cydweithredu â ACC, felly os oes angen unrhyw eglurhad gan ACC, trafodaf y mater gyda chysylltiadau'r prosiect a throsglwyddo gwybodaeth yn ôl yr angen.

Fel y nodwyd yn adran Amserlen y ddogfen fanyleb, mae dogfennau tendro i'w cyfeirio at y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, SMS Eden ac wedi ei labelu Peidiwch ag agor. Mae'r dogfennau tendro i'w ddychwelyd i:

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol
Penrhyndeudraeth
Gwynedd
LL48 6LF

Rwy'n gobeithio bod y wybodaeth uchod yn ddigonol i ateb unrhyw gwestiynau, fodd bynnag mae croeso i chi gysylltu â mi am unrhyw wybodaeth bellach sydd ei hangen.

Sam Price

Swyddog Prosiect Dalgylch Afon Eden

Afon Eden Catchment Project Officer

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Snowdonia National Park Authority

FFôn / Tel : 01766 772 251 / 07900 267 508

e-bost / e-mail: Sam.Price@eryri.llyw.cymru

